JACOB, SARAH (1857 - 1869), yr ymprydferch

Enw: Sarah Jacob
Dyddiad geni: 1857
Dyddiad marw: 1869
Rhiant: Hannah Jacob (née Williams)
Rhiant: Evan Jacob
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: yr ymprydferch
Maes gweithgaredd: Meddygaeth
Awdur: David Jenkins

Ganwyd 12 Mai 1857, trydedd ferch Evan a Hannah Jacob, Llether-neuadd-uchaf, Llanfihangel Iorath, Sir Gaerfyrddin. Ym mis Chwefror 1867 bu mewn llewyg am fis cyfan, a phan ddadebrodd ni chymerodd ond ychydig o fwyd llaeth. Erbyn 10 Hydref 1867 dywedid iddi beidio â bwyta nac yfed dim, a honnid iddi fyw felly hyd ei marw, 17 Rhagfyr 1869 - 113 wythnos. Lledodd hanes ei hymprydio ar draws y wlad, a daeth yn bwnc trafodaeth ymysg meddygon blaenllaw. Deuai pobl o bell ac agos i weld yr eneth, gan roddi anrhegion iddi. Wedi llawer iawn o ddyfalu a dadlau gyrrwyd staff o nyrsus o ysbyty Guy, Llundain, i'w gwylio, ac ymhen ychydig dros wythnos bu'r ferch farw. Cyhuddwyd ei rhieni o ladd eu merch drwy beidio â rhoddi bwyd iddi, a dedfrydwyd hwynt i garchar.

Awdur

Dr David Jenkins, (1912 - 2002)

Ffynonellau

W. M. Wilkinson, *The cases of the Welsh fasting girl and her father* (London 1870)

Robert Fowler, M.D., *A Complete History of the Case of the Welsh Fasting-Girl (Sara Jacob) with Comments thereon and Observations on Death from Starvation* (Llundain 1871)

D. Jones, *The Welsh Fasting Girl being a complete history of the remarkable case of Sarah Jacob, as revealed by authentic sources of information of absorbing general, medical and legal interest* (Pencader 1904)

Darllen Pellach

Archifau LlGC: NLW MS 23137E: Sarah Jacob, the 'Welsh fasting girl'

D. G. Lloyd Hughes, Hanes hynod Sarah Jacob, y ferch a lwgwyd i farwolaeth, *Y Casglwr pob peth printiedig*, Rhif 51, Gaeaf 1993

Richard W. Ireland, 'Sanctity, superstition and the death of Sarah Jacob', yn *Making legal history* (Cambridge 2012), tt. 284-302

The Sarah Jacob Case, 1869, Cymdeithas Hanes Cyfraith Cymru

Erthygl Wicipedia: Sarah Jacob

Dolenni Ychwanegol

NLW Archives: D. Roy Evans Collection A/10: A vol. of newspaper cuttings (12 Dec. 1869-18 Jan. 1870) relating to the death of, and the inquest upon, Sarah Jacobs

VIAF: 38952351

Wikidata: Q13131210

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu